Uwaoma ydw i, ac roeddwn i'n gweithio i Ddinas Llundain a Westminster. Roeddwn i'n ei ystyried yn ddyletswydd i'r wlad, yr oeddwn i'n ei hoffi, ac roeddwn i am chwarae fy rhan. Fe welais yr hysbyseb a phan gyflwynais gais, aeth drwodd a gwnaeth rhywun fy ffonio i siarad â mi ac yna i'm briffio ac roeddwn i'n hapus i wneud y gwaith.

Ac yna cefais wybod ble i fynd am yr hyfforddiant cychwynnol, oherwydd fe gafon ni hyfforddiant da iawn, ac roedd y lleoliad lle cafon ni ein briffio a'n paratoi yn dda iawn.

Fe gafon ni fap, ac fe aethon ni i'r anheddau i ble'r oedd pobl yn byw, a gyda rhai lleoedd, roedd y cyfeiriad a roddwyd i ni wedi newid oherwydd gwaith adeiladu newydd ac ati. Ac fe wnaethom ofyn cwestiynau i bobl o gwmpas, roedd angen iddynt nodi'r lleoliad nesaf neu bwy oedd yn byw yno'n flaenorol. Felly roedd yn eithaf manwl, rhaid i chi fod yn rhagweithiol iawn, cael cof da, a gallu cerdded o gwmpas a gofyn cwestiynau.

Roeddwn i'n frwdfrydig iawn a wnaeth fy helpu, felly hefyd fy nghydweithwyr. Ac yna'r gefnogaeth; fe ddaethon ni'n ffrindiau ac fe ddarganfyddais rannau o Westminster Dinas Llundain, na fyddwn i wedi dod ar eu traws heb y cyfrifiad.

Felly fe ddes i'n fwy ymwybodol o'r amgylchedd. A bu modd imi ddefnyddio fy sgiliau daearyddiaeth, a darllen mapiau ac fe wnes i fwynhau'r profiad.